# ILLINGWORTH, LESLIE GILBERT (1902 - 1979), cartwnydd gwleidyddol



**Enw:** Leslie Gilbert Illingworth
**Dyddiad geni:** 1902
**Dyddiad marw:** 1979
**Rhiant:** Richard Frederick Illingworth
**Rhiant:** Helen Illingworth (née MacGregor)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cartwnydd gwleidyddol
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Chris Williams

Ganwyd Leslie Illingworth ar 2 Medi 1902 yn Ffordd yr Harbwr, y Barri, mab ieuengaf Richard Illingworth, syrfëwr meintiau o Swydd Gaer, a'i wraig Helen (g. MacGregor), athrawes o Swydd Efrog. Roedd ei ewythr Frank Illingworth yn gartwnydd llai a gyhoeddodd yn *Punch* yn 1914. Symudodd y teulu yn 1904 i Dregatwg, lle mynychodd Illingworth Ysgol Gynradd Ffordd Palmerston. Pan symudodd y teulu eto i Silstwn ym Mro Morgannwg yn 1912, mynychodd Ysgol St Athan, gan ennill ysgoloriaethau wedyn i Ysgol Sir Bechgyn y Barri (lle roedd yn gydoeswr â Ronald Niebour a weithiodd maes o law fel 'Neb' yn gyd-gartwnydd ag Illingworth), ac yna i Goleg Technegol Dinas Caerdydd.

Erbyn 1920 roedd Illingworth yn gweithio yn adran lithograffeg y *Western Mail*, a dechreuodd dynnu brasluniau a chartwnau chwaraeon ar gyfer ei chwaer-bapur y *Football Express*. Pan fu farw J. M. Staniforth, uchel ei barch fel 'Tenniel Cymru', yn 1921, cymerodd Illingworth ei le fel cartwnydd gwleidyddol y Western Mail, gan weithio i'r papur bob yn ail â pheidio tan 1927. Er bod ganddo ddaliadau sosialaidd yn ddyn ifanc, pan ddarllenai Marx ac Engels, ymfodlonodd i gyd-fynd â safbwynt gwleidyddol y *Mail*, a daliodd i weithio trwy Streic Gyffredinol 1926, gan gyfaddef yn nes ymlaen 'I knew which side of my bread was buttered'.

Yn ystod y 1920au ac i mewn i'r 1930au cyfunodd Illingworth gartwna gwleiyddol gyda gwaith llawrydd, gan arlunio ar gyfer ystod o gyhoeddiadau yn Llundain, ac yn eu plith y *Strand*, *London Opinion*, *Punch* a *Tit-Bits*, tra'n astudio yn Ysgol Gelf Gain y Slade a theithio i Baris ac i'r Unol Daleithiau. Bu'n byw yn Sain Tathan o 1925, ac yn 1936 gadawodd Gymru yn barhaol, gan symud i Lundain. Yn 1939 cymerodd le 'Poy' (P. H. Fearon) fel cartwnydd gwleidyddol gyda'r Daily Mail, ac arhosodd yn y swydd honno tan 1969. Erbyn iddo ymuno â'r *Mail* nid oedd gan Illingworth ddaliadau radicalaidd. Fe'i gwelai ei hun yn ddyn dosbarth canol is yn arlunio ar gyfer darllenwyr dosbarth canol is, a derbyniai safbwynt golygyddol adain-dde y *Mail*, gan bregethu i'r cadwedig yn ei waith yn hytrach na cheisio herio eu rhagfarnau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd Illingworth yn y Cartreflu ac fel gynnwr gwrthawyrennol yn Hyde Park. Yn dilyn marwolaeth Bernard Partridge yn 1945 daeth yn ail gartwnydd gyda Punch, ac yna'n brif gartwnydd yn 1949. Parhaodd i arlunio ar gyfer y cylchgrawn wythnosol tan 1968. O 1940 tan 1963 bu'n byw yn Knightsbridge gyda'i howsgiper a chymdeithes Enid Ratcliff, a symudodd wedyn i Horley yn Sussex. Ni fu byth yn briod. Dewiswyd ef yn gartwnydd

gwleidyddol a chymdeithasol y flwyddyn trwy bleidlais gan Glwb Cartwnwyr Prydain Fawr yn 1962, bu'n llywydd cyntaf Cymdeithas Cartwnwyr Prydain yn 1966 a derbyniodd ddoethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Swydd Gaint yn 1975. Ymddangosodd ar raglen radio'r BBC *Desert Island Discs* yn 1963. Daliodd ati i weithio'n achlysurol hyd 1976 dros y *News of the World* a'r *Sun*. Bu farw mewn ysbyty yn Hastings ar 20 Rhagfyr 1979.

Yn wahanol i lawer o gartwnwyr blaenllaw'r cyfnod, ni chyhoeddodd Illingworth gasgliadau o'i waith, er i dros saith deg o'i gartwnau i'r *Daily Mail* ymddangos mewn cyfrol gyfansawdd yn 1944 ac i'r cartwnydd a hanesydd cartwnau Americanaidd Draper Hill ddathlu gyrfa Illingworth yn *Illingworth on Target* (1970). Mae casgliad mawr o waith Illingworth ar gael ar-lein gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Gyda'i acen Morgannwg gref, roedd yn amlwg i bawb mai Cymro oedd Illingworth, ac ef oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y ffermwr o Gymro 'Organ Morgan' yn strip comig 'Flook' Wally Fawkes. Serch hynny, ychydig iawn o elfen Gymreig oedd i waith Illingworth yn *Punch* a'r *Daily Mail*. Ni ddyfeisiodd unrhyw stereoteip cenedlaethol neu ffigwr pobun ac nid amlygodd unrhyw gydymdeimlad â Chymry blaenllaw yn y byd gwleidyddol, megis Aneurin Bevan, a oedd yn gas ganddo, a Winston Churchill yn well ganddo o lawer.

Yn ddylunydd celfydd a grymus, arferai Illingworth lai o reolaeth dros ei gynnwys na'r rhan fwyaf o gartwnwyr blaenllaw, a'i olygyddion fyddai'n aml yn dewis y pwnc iddo ei ddarlunio. Sylwodd Malcolm Muggeridge, a fu'n olygydd arno gyda *Punch* am bum mlynedd, er nad oedd Illingworth yn 'political animal, and has little or no spirit of partisanship where politicians and their policies are concerned, yet he reacts profoundly to a political situation seen as part of the drama of life' ('Introduction' i *Illingworth on Target*, 6). Ei gartwnau gwrol a gwladgarol o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan oedd bron pob gelyn yn allanol yn hytrach nag yn fewnol, yw'r cofadail effeithiolaf i gelfyddyd Illingworth. Mae 'The Combat' (*Punch*, 6 Tachwedd 1939), sy'n darlunio un awyren ymladd Spitfire yn paratoi i fynd i'r afael â bwystfil anferth yn cynrychioli'r Almaen Natsïaidd, yn sefyll yn atgof pwerus o natur ddirfodol y frwydr honno, ac o'r rhan bwysig a chwaraeodd cartwnwyr gwleidyddol trwy gynnal ysbryd y cyhoedd yn ystod ei chyfnodau anoddaf.

## Awdur

**Chris Williams**

## Ffynonellau

LlGC: Casgliad Illingworth

*400 famous cartoons by 5 famous cartoonists: Neb, Lee, Moon, Gittins, Illingworth, from the Daily Mail, The Evening News, Sunday Dispatch* (London 1944)

Timothy S. Benson, *Illingworth: political cartoons from the Daily Mail 1939-69* (London 2009)

Mark Bryant, 'Crusader, white rabbit or organ-grinder's monkey? Leslie Illingworth and the British political cartoon in World War II', *Journal of European studies*, 31 (2001), 345-66

Mark Bryant, *Illingworth's war in cartoons: one hundred of his greatest drawings from the Daily mail, 1939-1945* (London 2009)

Draper Hill, *Illingworth on target: an exhibition of the cartoons and drawings of Leslie Illingworth held in the Wiggin Gallery of the Boston Public Library in October, 1970* (Boston 1970)

Leslie Gilbert Illingworth, 'Growing up in the Vale', yn Stewart Williams (gol.), *The Glamorgan Historian*, 4 (1967), 13-17

Ernest Kay (gol.), *The wit of Harold Wilson... with cartoons by Illingworth of the London 'Daily Mail'* (London 1967)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 14009920

Wikidata: Q15109565

**Dyddiad cyhoeddi:** 2023-11-27

**Hawlfraint Erthygl:** https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Rhannu